

# Newyddion Bywyd y Gymuned a'r Campws!

Tymor yr Hydref 2019

Annwyl Breswylwyr,  
Helô eto, a chroeso i ail rifyn ein cylchlythyr tymhorol - Bywyd y Gymuned a'r Campws. Yn ystod yr wythnosau nesaf, bydd y tîm Cyswllt Cymunedol yn gweithio'n agos gyda Heddlu De Cymru a Chyngor Abertawe yn y cyfnod prysur hwn wrth i'r Wythnos Cyrraedd a Chroeso agosáu. Byddwn hwnt ac yma yn y gymuned yn dosbarthu taflenni diogelwch a pheccynau gwybodaeth, felly dewch draw am sgwrs os ydych yn ein gweld; byddwn yn hapus i ateb eich cwestiynau. Sylwer: Mae'r Wythnos Cyrraedd a Chroeso rhwng 20 a 29 Medi 2019

## Cyflwyniadau...

### James Slattery

James Slattery yw ein Swyddog Cyswllt Cymunedol a'ch pwynt cyswllt ar gyfer materion sy'n ymwneud â'r gymuned. Mae'n gweithio gyda myfyrwyr a phreswylwyr cymunedau ledled Abertawe. Mae rôl y Swyddog Cyswllt Cymunedol wedi datblygu o waith partneriaeth parhaus rhwng Prifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Dinas a Sir Abertawe, Heddlu De Cymru ac Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe.

### Grace Hannaford

Roedd Grace yn fyfyrwr Daearyddiaeth ac yn aelod o'r clwb pêl-rwyd cyn cael ei hethol yn Swyddog Lles Undeb y Myfyrwyr y llynedd. Eleni, hi yw Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe ac mae ganddi lawer o syniadau newydd i ddod â myfyrwyr a'r gymuned leol ynghyd - gan adeiladu ar y gwaith mae wedi'i wneud eisoes. Mae hi'n teimlo'n angerddol am helpu eraill ac mae bob amser yn hapus i ateb cwestiynau. Gallwch gysylltu â Grace yma: [grace.hannaford@swansea-union.co.uk](mailto:grace.hannaford@swansea-union.co.uk)

## Beth sy'n digwydd?

Dosbarthiadau Saesneg Am Ddim  
1300 a 1500 bob dydd Mercher a dydd Gwener rhwng  
2 Hydref a 6 Rhagfyr  
Cysylltwch â Peter Neville i gadw lle: [p.l.neville@abertawe.ac.uk](mailto:p.l.neville@abertawe.ac.uk)

Wythnos Cyrraedd a Chroeso ar gyfer Myfyrwyr:  
20 – 29 Medi 2019

Pryd o fwyd yn y gymuned  
Ar Gampws Parc Singleton Prifysgol Abertawe. Mae'r amserau a'r dyddiadau'n amrywio. I gadw lle, e-bostiwch Discovery yn [discovery@abertawe.ac.uk](mailto:discovery@abertawe.ac.uk)

Allgymorth Cymunedol  
Bydd y Tîm Cyswllt Cymunedol hwnt ac yma yn yr ardal leol o gwmpas Campws Singleton rhwng 30 Medi ac 11 Hydref 2019.

## Cysylltiadau Allweddol

Ailgylchu a Sbwriel Cyngor Abertawe  
I roi gwybod am broblem, gallwch ddefnyddio un o ffurflenni'r Cyngor ar ei wefan: [www.swansea.gov.uk/tidyswansea](http://www.swansea.gov.uk/tidyswansea). Os byddai'n well gennych siarad â rhywun, gallwch ffonio 01792 635600

Llygredd Sŷn Cyngor Abertawe  
Gallwch gysylltu â'r Ganolfan Galwadau Amgylcheddol drwy ffonio 01792 635600 neu e-bostio [pollution@swansea.gov.uk](mailto:pollution@swansea.gov.uk)

Y Tîm Cyswllt Cymunedol  
Os hoffech gysylltu â ni am gyngor, cymorth neu am unrhyw reswm arall, byddwn yn falch o helpu. Gallwch ffonio 01792 606557 neu e-bostio [community.campuslife@abertawe.ac.uk](mailto:community.campuslife@abertawe.ac.uk)

Switsfwrdd yr Heddlu  
I roi gwybod am anhrefn cyhoeddus ffoniwch 101, neu 999 mewn argyfwng  
I gael manylion cyswllt eich tîm plismona lleol, ewch i [www.police.co.uk](http://www.police.co.uk)

Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe  
[www.swansea-union.co.uk](http://www.swansea-union.co.uk)